| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 21 Hydref 2010 |
| **TEITL** | Rhybudd i Gychwyn Cynllun Datblygu Lleol |
| **PWRPAS** | I gwblhau gwaith ar y Cynllun Datblygu Unedol (CDU) yn ffurfiol ac i ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru i baratoi deddfwriaeth eilaidd i roi'r hawl i ddechrau paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). |
| **ARGYMHELLIAD** | Argymhellir bod:<br>1. Pennaeth Adran Rheoleiddio yn cael yr hawl i roi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru bod y Cyngor wedi gorffen defnyddio ei bwerau i baratoi CDU o dan Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a'i ddiwygiadau), a<br>2. Pennaeth Adran Rheoleiddio yn cael yr hawl i ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru i baratoi'r ddeddfwriaeth eilaidd (y Rhybudd Dechrau Lleol) i awdurdodi dechrau'n ffurfiol ar baratoi'r CDLl. |
| **AWDUR** | Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cyng. W Gareth Roberts |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ar ôl mabwysiadu'r CDU ym mis Gorffennaf 2009, daeth y gwaith yn gysylltiedig â pharatoi'r CDU i ben. Gan hynny, mae'r Cyngor nawr mewn sefyllfa i ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) i baratoi Rhybudd Dechrau Lleol ar gyfer paratoi'r CDLl. Ni all y Cyngor ymgymryd ag unrhyw waith ffurfiol neu wneud unrhyw benderfyniadau ffurfiol yn unol â'i ddyletswydd i baratoi CDLl, hyd nes fydd y Rhybudd yn ei le.

## 2. Cefndir

2.1 Fe wnaeth y Cyngor fabwysiadu'r CDU ar 16 o Orffennaf 2009 o dan Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a'i ddiweddariadau) a'r rheoliadau amrywiol gafodd eu mabwysiadu o dan y Ddeddf honno, sef Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu) 1991 (a'i ddiwygiadau) yn bennaf.

2.2 Dechreuwyd gweithredu yng Nghymru ar ofynion Rhan 6 o'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ym mis Hydref 2005. Mae hwnnw'n gwneud hi'n ofynnol i bob un awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru i baratoi CDLl ar gyfer ei ardal. Mae'r gofyniad yma'n disodli'r gofyniad i baratoi CDU o dan y Ddeddf 1990.

Pan gaiff y CDLl ei fabwysiadu fe fydd yn disodli'r CDU, a'r CDLl fydd y cynllun datblygu ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd.

2.3 Yn unol â'r trefniadau dros dro yn Erthygl 6 o Rybudd Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (Dechreuad Rhif 4 a Threfniadau Ol-ddilynol, Dros Dro a Gwarchod) (Cymru) 2005, er mwyn gallu gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd mae'n rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniad yn gyntaf i beidio gwneud gwaith ar y CDU a gorffen defnyddio ei bwerau o dan yr hen ddeddfwriaeth. Ar ôl hynny mae'n rhaid i'r Cyngor ysgrifennu at LlCC i ofyn iddo'n ffurfiol i baratoi'r ddeddfwriaeth eilaidd angenrheidiol (Rhybudd Dechrau Lleol) i awdurdodi'r symudiad ffurfiol i baratoi CDLl.

## 3. Sefyllfa bresennol

3.1 Yn dilyn penderfyniad yng nghyfarfod Bwrdd y Cyngor ar 15 Mehefin 2010 a phenderfyniad gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ar yr un diwrnod, mae gwaith ar y gweill i sefydlu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a pharatoi un CDLl ar y cyd ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Môn. Cyflwynir adroddiad ar wahân i gyfarfod y Cyngor ynglŷn â'r newidiadau cyfansoddiadol sydd angen eu gwneud yn gysylltiedig â hyn.

3.2 Trwy gydweithio gydag eraill, gan gynnwys Uned Polisi Cynllunio Môn, mae gwaith eisoes ar y gweill i ddeall

- y cyd-destun ehangach o ran polisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;
- anghenion, cyfleoedd a chyfyngiadau'r ardal

Gan fod gofyniad i sicrhau y bydd y CDLl yn 'gadarn' mae'n bwysig bod y broses o baratoi'r CDLl yn cael ei lywio gan dystiolaeth rymus. Fe fydd y broses o ddatblygu'r sail dystiolaeth felly yn un barhaus.

3.3 Yn unol â'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 a'r canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol yn Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru 2005, mae'r gwaith o baratoi Cytundeb Cyflawni (CC) CDLl, sydd yn cynnwys strategaeth cyfranogiad cyhoeddus ac amserlen ar gyfer ei baratoi, wedi cychwyn. Deallir nad all LlCC fynegi barn ffurfiol ar y ddogfen yma hyd nes awdurdodir y Cyngor i symud yn ffurfiol i baratoi'r CDLl. Bwriedir adrodd ar fersiwn drafft ymgynghorol o'r CC i Bwyllgor yr Amgylchedd ac yna i Fwrdd y Cyngor cyn ei ryddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Os penderfynnir gwneud y newidiadau cyfansoddiadol a chyfeirwyd ato ym mharagraff 3.1 uchod, cyflwynir y CC i Bwyllgor Sgriwtini Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol a Phwyllgor Gwaith Môn hefyd, yn ogystal ag i Bwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd (Gwynedd a Mon). Bydd casgliadau'r ymgynghoriad cyhoeddus yng nghyd a'r fersiwn drafft terfynol o'r CC yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor yn ystod 2011.

**4. Goblygiadau ariannol**

4.1 Nid oes yna gostau uniongyrchol i'r Cyngor oherwydd yr angen i baratoi'r ddeddfwriaeth eilaidd gan LlCC. Mae goblygiadau ariannol o baratoi CDLl wedi bod yn destun adroddiadau blaenorol.

**5. Argymhellion**

5.1 Argymhellir bod:

a) Pennaeth Adran Rheoleiddio yn cael yr hawl i roi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru bod y Cyngor wedi gorffen defnyddio ei bwerau i baratoi Cynllun CDU o dan Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a'i ddiwygiadau),

b) Pennaeth Adran Rheoleiddio yn cael yr hawl i ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru i baratoi'r ddeddfwriaeth eilaidd (y Rhybudd Lleol) i awdurdodi dechrau'n ffurfiol ar baratoi'r CDLl.

**Papurau Cefndir:**

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a'i ddiwygiadau); Rheoliadau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu) 1991 (a'i ddiwygiadau); Rhybudd Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 (Dechreuad Rhif 4 a Threfniadau Ol-ddilynol, Dros Dro a Gwarchod) (Cymru) 2005; Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005; Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru 2005